# Glas

Rhif 213

Tachwedd 2025

Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd

Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




Coesyn Brau Gwinau,
Betws y Coed, 25 Medi 2025
*Psathyrella spadicea DK*

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

# Mewnfudwyr dwy flynedd gwahanol iawn

**ADRODDIAD DIWEDDARAF GMS Cymru (Cynllun Monitro Gwyfynod y Gerddi: wythnosau 18-27, Mai - Mehefin). Mae'r detholyn hwn yn tynnu sylw at ddau haf gwahanol iawn o dywydd eithafol - gwlyb a dwl yn 2024 a gwres mawr yn 2025.**


**"Digwyddodd y rhan fwyaf o rywogaethau mewn niferoedd mwy nag y flwyddyn flaenorol** [2024]**, yr eithriadau yw'r Troedwas Cyffredin, y Llwydyn rhydlyd/Llwydyn llyfn, Ton Rhubannog, gwyfyn Bwáu Tywyll a Calon a saeth; dangosir y newid canrannol ar gyfer y rhywogaethau hyn mewn coch. Amrywiodd y cynnydd yn y 25 rhywogaeth sy'n weddill yn sylweddol. Dangoswyd y ddau gynnydd mwyaf gan y dyfrlliw brwyn a'r Berlen rhydlyd (wedi eu marcio mewn pinc), ill dau yn ficro-wyfynod y gwyddys eu bod yn fudwyr."**
(Gwgl-gyfieithiad o adroddiad Norman Lowe, Powys, wedi ei olygu)

Almost all of the 30 species under consideration were found in greater numbers than the previous year, the exceptions being Common Footman, Uncertain/Rustic agg., Riband Wave, Dark Arches and Heart and Dart; the % change for these species are shown in red. The remaining 25 species increased in numbers by varying amounts. The two greatest increases were shown by Rush Veneer and Rusty-dot Pearl both of which are micros that are known to be migrants.

Table 2 Comparison between the commonest GMS species monitored in Wales in Q3 2025 and 2024

| Common Name | Mean per garden | | % change |
|---|---|---|---|
| | **2025** | 2024 | |
| Large Yellow Underwing | **68.41** | 45.42 | 51 |
| Dingy Footman | **32.38** | 21.46 | 51 |
| Brimstone Moth | **29.55** | 19.29 | 53 |
| Setaceous Hebrew Character | **29.14** | 6.50 | 348 |
| Flame Shoulder | **28.10** | 15.17 | 85 |
| Lesser Broad-bordered Yellow Underwing | **21.21** | 11.63 | 82 |
| Common Rustic agg. | **20.72** | 13.04 | 59 |
| Common Footman | **18.62** | 30.08 | -38 |
| Square-spot Rustic | **13.38** | 8.96 | 49 |
| Common Grass-moth | **12.72** | 7.33 | 74 |
| Flounced Rustic | **11.48** | 5.96 | 93 |
| Mother of Pearl | **10.79** | 5.42 | 99 |
| Uncertain/Rustic agg. | **10.41** | 20.25 | -49 |
| Straw Grass-moth | **10.17** | 3.54 | 187 |
| Small Phoenix | **10.14** | 4.21 | 141 |
| Straw Dot | **10.07** | 3.79 | 166 |
| Garden Grass-moth | **9.66** | 6.50 | 49 |
| Willow Beauty | **9.14** | 8.92 | 2 |
| Riband Wave | **8.86** | 16.50 | -46 |
| July Highflyer | **7.72** | 2.83 | 173 |
| Dark Arches | **7.45** | 9.96 | -25 |
| Rush Veneer | **7.34** | 1.04 | 606 |
| Light Brown Apple Moth | **7.14** | 6.54 | 9 |
| Small Fan-footed Wave | **6.90** | 6.38 | 8 |
| Double Square-spot | **6.07** | 3.54 | 71 |
| Common Marbled Carpet | **5.90** | 4.04 | 46 |
| Light Emerald | **5.69** | 2.08 | 174 |
| Heart and Dart | **5.69** | 12.38 | -54 |
| Early Thorn | **5.62** | 4.58 | 23 |
| Rusty-dot Pearl | **5.21** | 0.21 | 2379 |

**Norman Lowe**


Dyfrlliw y brwyn (*Rush Veneer*), Clydach,Cwm Tawe - 2 Awst 2025
Un o'r gwyfynod mudol.


Llun Grant Peisley
Gwalchwyfyn hofrol


Gwalchwyfyn y benglog
Llun Iwan Roberts


Llun DK
Llwydfelyn

Roedd haf 2025 yn gyffredinol yn wir yn wrthgyferbyniad trawiadol o gymharu a haf 2024. Er mai cymharol bach oedd y niferoedd a gawsom gennych ar Cymuned Llên Natur (tabl isod) roedd y rhywogaethau yn ddadlennol iawn yn y ffaith nad oedd amheuaeth mai mewnfudwr y flwyddyn oeddynt.

**Tair rhywogaeth mudol ar Cymuned Llên Natur yn y ddwy flynedd diwethaf**

| **Rhywogaeth** | **Lle** | **mis 2024** | **mis 2025** | **Sylwedydd** |
|---|---|---|---|---|
| Gwalchwyfyn hofrol | Abersoch | | Medi | James Williamson |
| Gwalchwyfyn hofrol | Brondanw | | Medi | Seran Arianwen |
| Gwalchwyfyn hofrol | Nanhoron | | Medi | Elizabeth Jones |
| Gwalchwyfyn hofrol | Clydach | | Medi | Dewi Lewis |
| Gwalchwyfyn hofrol | Clydach | | Medi | Dewi Lewis |
| Gwalchwyfyn hofrol | Deiniolen | | Awst | Nesta Wynne |
| Gwalchwyfyn hofrol | Trefnant | Awst | | Alun Williams |
| Gwalchwyfyn y benglog | Conwy | | Awst | Iwan Roberts |
| Llwydfelyn | Cors Ddyga | | Awst | Rowena Thomas |
| Gwalchwyfyn hofrol | Bwlchtocyn | | Awst | Gareth Jones |
| Gwalchwyfyn hofrol | Llanfor | | Gorff | Del D'Aubray |
| Gwalchwyfyn hofrol | Caernarfon | Gorff | | Dafydd Edwards |
| Gwalchwyfyn hofrol | Y Fron | Gorff | | Delyth Gadlys Williams |
| Gwalchwyfyn hofrol | Pentir | | Gorff | Bryan Dickinson |
| Gwalchwyfyn hofrol | Llandwrog | | Gorff | Grant Peisely |
| Gwalchwyfyn hofrol | Llanfrothen | | Gorff | Llanfrothen |
| Gwalchwyfyn hofrol | Treborth | | Meh | Rowena Thomas |
| Gwalchwyfyn hofrol | Caergybi | | Meh | |
| Llwydfelen | Nebo | | 'haf' | Bethan Moseley |
| **CYFANSWM MEDI** | | **0** | **5** | |
| **CYFANSWM AWST** | | **1** | **4** | |
| **CYFANSWM GORFF** | | **2** | **4** | |
| **CYFANSWM MEH** | | **0** | **2** | |
| **CYFANSWM BLWYDDYN** | | **3** | **15** | |

## Cranc cysglyd yn Llanbedrog

**Diwedd Medi** ■ Cranc pur anghyffredin yn y cewyll heddiw. Cranc Sbwnj neu Granc Cysglud *(Dromia personata)*. Bodiau pinc fel pe tasai farnish gwinedd arnynt a sbwnj ar ei gefn. Dim ond y trydydd i mi ei weld yn f'oes. Ger Coffor Du, Bae Llanbedrog, 28ain Medi, 2025. Ff. *Crabe dormeur* **Greta Hughes**




## Mulfran Llyn Celanedd



Mulfran wedi dal sliwen, Llyn Celanedd, Aberogwen, 9ed Hydref, 2025. **Greta Hughes**

'Wedi dal'? dim cweit! Llun trawiadol. **DB**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Glas

Llên natur Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

## Golwg truenus



Ji-binc, benyw ■ Haint ar ei choesau, bechod **(Eirlys Edwards Behi)** a throgen fawr ar ei llygad. **DB**

## Yr anarferol a'r dadlennol



Madfall yn bwrw ei groen. **Alun Williams**

## Mewnfudiad mwyalchod



20 Medi 2025 ■ Clamp o bry genwair… Clydach, Cwm Tawe 20 Medi 2025. Edrych bod 'na fudiad wedi bod dros nos. Heb gofnodi mwyalchen yn yr ardd ers wythnosau ond 5 yma bore 'ma. **Dewi Lewis**

# Esgidiau mewn simneau

**Yn ôl yn 2018 postwyd yr hanesyn hwn:**

Tynnais rhain bore yma yn nhy Howard ac Ann Williams yn Hengwm, Clynnog Fawr. Gweddillion tua dau bar o esgidiau bychain sydd yn y bocs (Clarks!) a gafwyd wedi eu claddu o dan yr hen foiler bwyd moch yn beth oedd mae'n debyg ty gwreiddiol Hengwm. Mae'r esgidiau yn fach iawn ond o wneuthuriad caled a garw. Mae'n rhaid mai esgidiau plant ydyn nhw o ran eu maint, ond tybiaf bod ôl defnydd gwaith (ar y fferm?) sydd arnyn nhw. **DB**







Cefais alwad rai blynyddoedd yn ôl i weld trugareddau fel hyn mewn simdde yn nhŷ fferm yn Llanwnda, ger Caernarfon. Yn ôl arbenigwr, dyma oedd y casgliad mwyaf iddo ei weld. Pob eitem yn ymwneud a phlentyn. **Ifor Williams**

Dyma stori arall o Gernyw am yr arferiad (yn y Sylwadau i'r erthygl yn y Country Diary - mae 'na ddolen (coch) iddo yn erthygl **MP** (tudalen nesaf):

*16 Rhag 2016 9:14 It is interesting.... Our neighbours found a shoe walled up in the chimney of their old house when they had it repaired, again an attempt to ward off evil.* **Cathy Rozel**

*A friend of mine recalls finding a number of shoes (if I remember correctly) in a similar situation in his childhood home near Beddgelert. I take it that your example was from Cornwall. Could we be talking Celtic tradition here?*

**DB → I gyfaill o Gernyw**

*After reviewing the explanations online it may not be so that hiding shoes was an attempt to ward off evil - some think it was related to fertility rites (smickling!! apparently to wear the shoes of a woman who has just given birth) and the fascinating point was made that shoes are the only item of clothing to take on the form of the wearer.* **CR**

*BBC News - The mystery of a ruined Snowdonia cottage's 100 shoes - BBC News https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11400041...* **Richard Gwyn Neale**

Yn Efrog wythnos diwethaf - esgyd wedi ei guddio yn hen wal tŷ y maer. Sgidiau yn rhoi lwc da. Pan oedd fy nhad yn gwneud arholiadau yn yr ysgol roedd ei fam yn cidio mewn hen esgyd ei dad ac yn taflu'r esgyd ar ei ôl e yr holl ffordd lawr y llwybr - fe yn rhuthro i ffwrdd cyn i unrhywun ei weld e! A oes hanesion eraill ynglyn â sgidiau. Mamgu o sir Faesyfed **Isobel Carter**

Darganfuwyd esgidiau fel y rhain yn y simdde-fawr yn Garreg Boeth (Capel Uchaf, Clynnog Fawr) pan roedd fy modryb yn adnewyddu'r lle (1970au/80au dwi'n credu). **Iwan Williams**

Credu bod yr arferiad i fod i ddwad â lwc i'r sawl sy'n byw yn y tŷ. **Nerys Evans**

Mae sgidia cynta y ddau blentyn acw wedi eu rhoi yn simdda ein ty ni - a honno bellach wedi ei chau. Fe ddaw rhywun ar eu traws rywdro yn y dyfodol efallai - ac fe gawn nhw ein galw yn hen bobol bryd hynny!

**Dafydd Whiteside Thomas**

Dywedodd Howard (uchod) wrthyf ei fod ef (neu rhywun o'i gydnabod) wedi ail gladdu hen esgid yn y simdde ond gyda nodyn yn esbonio'r amgylchiadau, pwy a phryd. **DB**

Ddim yn siwr os ydi hyn yn berthasol ond mae'n perthyn yma **mwy nag unman** arall! **DB**


Wedi clywed hefyd yn ardal Rhuthun am sgerbwd cath wedi'i chladdu o dan rhiniog hen fwthyn hir.

**Edward Keith**

Maen nhw wedi darganfod gweddillion sgerbwd cath yn ddwfn dan ddaear ym Mwynglawdd Copr y Gogarth, Llandudno a hynny ers yr Oes Efydd! **Sian Rees**

**Cyhoeddwyd stori arall am guddio esgidiau tu ôl i le tân ym Mwletin 108 gan y diweddar Meic Povey. Mae'r stori (yng ngeiriau gwreiddiol y dramodydd enwog) am ei gartref yn Gelli Iago.**

## Esgidiau Gelli Iago



Dri chan mlynedd a mwy yn ôl, pan oedd un o'r tai hynaf sydd wedi goroesi ym mhentref Nant Gwynant, Eryri yn cael ei adeiladu, daeth teithiwr o'r enw Iago heibio a gofyn i un o'r gweithwyr: "Os af yn fy mlaen i fyny'r grib, trwy Fwlch y Saethau a Bwlch Batal fedrai ddod i olwg mynydd y Cnicht, ac yn y pen draw, bentref Croesor?" Atebodd y gweithiwr: "Gelli, Iago". Yn ol y son, dyna sut gafodd y tŷ – Gelli Iago - ei enw. Cwbl angrhedadwy, ond dyna oedd y stori fyddai fy nhad yn ei hadrodd pan oeddem yn byw yno fel teulu ym mhumdegau y ganrif ddiwethaf; nid yn yr hen dŷ gwreiddiol, sydd bellach yn adfail, ond yn y tŷ cymharol newydd.

Rhyfeddach na'r stori am darddiad yr enw ydi'r darganfyddiad a wnaed yn 2010 pan oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwneud gwaith atgyweirio arno, mewn ymdrech i gadw'r waliau a'r simdda fawr ar eu traed o leiaf. Canfuwyd cant o esgidiau sengl o oes Fictoria, wedi eu claddu o dan garreg yr aelwyd. Dirgelwch llwyr. Pam fyddai rhywun yn gwneud y ffasiwn beth? Yn y pumdegau, pan oeddwn blentyn, roedd yr hen dŷ yn 'weithredol'. Roedd arno do, a chedwid ieir ynddo; hefyd, ar ddiwrnod cneifio yno yn y llofft y cedwid y cnuoedd gwlan, nes i'r lori o Borthmadog ddod yno i'w cludo ymaith. Mae Gelli Iago – yr hen dy a'r newydd - yn swatio "yng nghesail y moelydd unig" fel petai. Gyferbyn, saif hen chwarel oedd wedi bod ar gau ers o leiaf ganrif pan gyrhaeddodd fy nhad a fy mam i fyw yno o Gwm Croesor. Ond ar un adeg, pan oedd y chwarel yn ei hanterth bodolai cymuned o oddeutu dau gant o eneidiau yn y cyffiniau. Ai aelodau o'r gymuned honno oedd yn gyfrifol am gladdu yr esgidiau?

Roedd pobl y cyfnod yn hynod o ofergoelus, felly a roddwyd yr esgidiau i'w cadw er mwyn wardio rhag ysbrydion drwg? Mae'n arferiad hynafol, oedd yn gyffredin mewn sawl ardal. Ond mae i bob esgid ei phartneras, felly pam esgidiau sengl? Un ddamcaniaeth ydi fod y llall yn cael ei gosod mewn rhywle ar wahan, mewn afon neu lyn, ac o'r herwydd yn anhebygol o ddod i'r fei mor rhwydd. Darganfuwyd cant o esgidiau. Ai un person oedd yn gyfrifol am eu claddu i gyd? Sgersli. Mae'n awgrymu i mi fod sawl person yn gyfrifol – hynny ydi, fod hen dy Gelli Iago yn gylchfaen, y 'lle' i ddod a'ch esgid, a'i throsglwyddo i'r sawl oedd yn berchen y ty. Person cyfrin hwyrach, 'ghostbuster' ei gyfnod? Pwy a wyr beth yw'r ateb. Ond mae dychymyg pawb yn dren ddyliwn. **Meic Povey**

Mae yna drafodaeth pellach yma am y busnes sgidia ar waelod y Country Diary yma yn y Guardian 16 Rhagfyr 2016 (sylwadau Llwyfen1 a CathyRose)

**Dyma'r rhan berthanasol o ddolen gyntaf yn erthygl Meic Povey uchod:**

*"Workers restoring a 300-year-old ruined cottage in Snowdonia have dug up a mystery under its fireplace. Almost 100 single shoes were discovered at Gelli Iago, a home which has been uninhabited for more than 50 years. The National Trust, which acquired the property after 1998's Save Snowdon campaign, is appealing to the public for an answer to the mystery.*

*"Why would someone keep these single shoes and hide them under a fireplace?" said the trust's Rhys Evans.*

*The discovery was made by contractors working to save the cottage's external walls and chimney stack. The shoes are thought to date from the Victorian period.*

*"We're baffled by this strange discovery," said Mr Evans, the trust's manager for Snowdonia. We know the house was probably built sometime during the 17th Century and that it is one of the oldest buildings remaining in Nant Gwynant," he said. "But very little is known about who lived here over the centuries."*

***'Symbolic presence'***

*One explanation the trust is looking at is the "concealed shoes" phenomenon - an ancient and superstitious practice aimed at guarding a house against bad luck. It was thought that a worn shoe was a manifestation of a person as it retained the shape of the foot, the trust explained. It therefore had a certain power to guard against perceived evil forces.*

*"No one knows what became of the other shoe but it has been speculated that one was placed in fire (the hearth or chimney) and the other in water (a river or lake), said a spokesman. Perhaps there was also some reassurance of the symbolic presence of their ancestors, especially if placed in the centre of the home under the hearth."*

*More than 1,000 recorded concealed shoes discoveries have been made in the UK, the earliest dating back to the 14th Century. If the Gelli Iago shoes were proved to have been concealed, then it would represent the largest hoard to have been found in the UK, said the trust.*

*Another theory is that the shoes could merely be old stock hoarded by a cobbler"*

## Cranc meudwy



Gan Greta eto ■ Cranc meudwy wedi ymgartrefu mewn cragen foch wag - Bae Llanbedrog, 6ed Awst, 2025. **Greta Hughes**

## Brasgamu’r bwncath

Bwncath ■ Carreg y Defaid, Llanbedrog, 29ain Medi, 2025. Wrth fy modd gweld bwncathod yn camu'n fras i gael gafael ar bry genwair. **Greta Hughes**











Gwylio'r bwncathod yn bwydo yng Ngharreg y Defaid yn hwyr prynhawn ddoe, 2ail Hydref, 2025. Golau gwael ond neb bron o gwmpas a daeth un yn ddigon agos i mi dynnu ychydig o luniau. **GH**

**Gweler hefyd fideo barcudiaid coch mewn cae aredig**

Euron Thomas wedi gweld 15 mewn cae ym Mhrenteg ar 28 Medi 2025. Ffrind wedi’u gweld yno Dydd Sul hefyd. **GH**

## Trosglwyn (parhad)



Trosglwyn, Carmel

Ymhellach i'r stori am wartheg blithion Trosglwyn ar dudalen 5 y mis diwethaf, dyma lun diweddar o’r tyddyn yn dangos llymder parhaus y tir.  Ac eto cae glas iawn, wedi ei achub o’r llymder, sydd i’w weld yn amlwg yng nghanol-chwith y llun. Go brin mai gwartheg godro sydd yn pori arno heddiw. Tybed beth oedd ansawdd y borfa honno yn y 50au. Mae Bill Vize yn gobeithio darparu llun arall o’r cyfnod, a fydd gobeithio yn dangos unrhyw newid.

Mae hanes y rhai a fu'n byw yno yn y cyfnod yn ddiddorol hefyd. Daeth rhieni Bil i fyw mewn tyddyn arall yn y cyffiniau yn fuan wedi'r rhyfel ar ôl dianc o lanast y Blitz yn Birmingham. Yn fuan wedyn, ac am yr un rhesymau, symudodd ei ewythr i Drosglwyn i droi ei law at ffermio tyddyn (roedd rhywfaint o gefndir ffermio ganddo cynt). Ond y peth hynod am ewythr Bil oedd mai ffariar ydoedd wrth ei alwedigaeth, a’i waith yn y fyddin Brydeinig oedd gofalu am y ceffylau fu’n allweddol ym Mrwydr y Somme yn y Rhyfel Mawr. Roedd ei ewythr, wrth arwain ei geffylau a’u gynnau i beryglon y tu hwnt i’n dychymyg, mae hanesion teuluol am yr erchyllderau i ddyn a cheffyl yn fyw yn y teulu o hyd.

## Caffi trwsio’r mis


**Pobl Bethel**

Oes ganddoch chi offer gardd neu beiriant trydanol sydd angen ei drwsio? Beth am daro heibio yn y Bedol ar yr ail ddydd Sul, pob mis.

Fe’ch gwelwn ar y 7ed o Rhagfyr - rhwng 1 a 3 yp.


# Y Copr Bach

**Sylwch ar y planhigyn - eiddew yn ei flodau. Adnodd holl bwysig i bryfed ac adar gan mai yn yr hydref mae eiddew yn blodeuo ac yn y gwanwyn mae'n ffrwytho.**



Copr bach yn haul y pnawn ■ Waunfawr 20/10/25
Llun Gill Brown

'Ffenograff' yn dangos dwy genhedlaeth y copor bach - dau benllanw, un ym mis Mai a'r llall ym mis Medi (ond yn dechrau siapio ym mis Awst).





Dylid ychwanegu at y ffenograff uchod y cofnodion ychwanegol a dderbynwyd ar ôl cwblhau'r graff yn 2016:

Mehefin 1
Gorffennaf 2
Awst 2
Medi 4
Hydref 4

Ar ôl y tymor hwn mi ail-luniaf y graff (diddorol bod cofnodion mis Hydref yn chwyddo fwy na'r misoedd eraill - tymor y copor bach yn ymestyn? Trydydd cenhedlaeth? Awst 2019)

A dyma fi'n gwneud... !

Dyma ddiweddaru'r data o Cymuned yn y postiad hwn fel graff sy'n cadw'r data blaenorol ar wahan. Diddorol yw nodi bod yr ail genhedlaeth yn cryfhau (noder y twf ym mis Medi) a'r genhedlaeth gyntaf ddim yn weladwy o gwbl. (Noder y gwanhau diweddar yn Ebrill a Mai). Er yn sampl fach mae'r glöyn hwn yn drawiadol ac yn ddeniadol waeth pa dymor mae o'n ymddangos ac felly yn anhebyg o fod â 'stumio tymhorol o ran y rhai sy'n tynnu'r lluniau.






Llun Alwena Evans



Llun DK
Llanllechid
28 Medi 2025

Casgliad Dominig Kervegant- Coedwig Gwydyr ▪ Diwedd Medi a Dechrau Hydref 2025

Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd

# CASGLIAD HYDREF 2025



Amanita smotiau
*Amanita excelsia*



Cap tyllog pinwydd
*Boletus pinophilus*



"Ffwng danheddog cyd-dyfol"
*Hydnellum concrescens*



Amanita wridog
*Amanita excelsa var. spissa*



Wicsen gron
*Boletus edulis*



Siantrel tonnog
*Pseudocraterellus undulatus*



Cap gweog gwaetgoch
*Cortinarius sanguineus*



Pennau jeli
*Leotia lubrica*



Cwrel cribog
*Clavulina coralloides*



Bonet goes felen
*Mycena epipterygia*



Siantrel cornffurf
*Cantharellus tubaeformis*



Coesyn Brau Gwinau
*Psathyrella spadicea*